Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Hysbysiadau hwylus

## Y Cyfansoddiad

Ebrill 2007

## Geirfa

**Aelodau'r Cynulliad (AC):** Y 60 cynrychiolydd etholedig sy'n ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:** Corff corfforaethol i gefnogi'r Cynulliad Cenedlaethol newydd. Bydd yn gyfrifol am gyflogi staff, dal eiddo, ymrwymo i gontractau a sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu i Aelodau'r Cynulliad. Bydd Aelodau'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall.

**Corff Corfforaethol:** Yn ystod y Cynulliad Cyntaf (1999-2003) a'r Ail Gynulliad (2003-2007) cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu fel corff corfforaethol gyda'i hunaniaeth gyfreithiol ei hun. Yn sgil *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* cafodd y weithrediaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru) a'r ddeddfwrfa (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) eu gwahanu'n gyfreithiol.

**Craffu cyn deddfu:** Ystyried deddfwriaeth ddrafft gan bwyllgor Seneddol neu bwyllgor y **Cynulliad** cyn y bydd y broses ffurfiol o gymeradwyo yn cychwyn. O ystyried Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, bydd hyn yn galluogi **Aelodau Cynulliad** etholedig i geisio gwybodaeth, casglu tystiolaeth a chynnig gwelliannau i Orchymyn arfaethedig cyn gosod Gorchymyn drafft.

**Y Cyfrin Gyngor:** Cyfarfod yn cynnwys y Frenhines a'i Chyfrin Gynghorwyr sy'n aelodau o'r Llywodraeth.

**Cronfa Gyfunol Cymru:** Cronfa o arian cyhoeddus a gaiff ei ddyrannu i Gymru gan Lywodraeth y DU, drwy gyfrwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ynghyd ag arian o ffynonellau eraill.

**Cwestiwn Gorllewin Lothian:** Cyfeiria at y mater ynghylch a ddylai Aelodau Seneddol nad ydynt yn eistedd ar gyfer seddi yn Lloegr barhau i bleidleisio ar faterion yn ymwneud â Lloegr yn Senedd y DU. Enwyd hwn ar ôl Tam Dalyell, y cyn Aelod Seneddol dros West Lothian, a ofynnodd y cwestiwn pan gynigiwyd datganoli yn y 1970au.

**Cwnsler Cyffredinol:** Prif Gynghorwr Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw'r Cwnsler Cyffredinol yn un o Weinidogion Cymru ond mae'n aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cyfansoddiad:** Cyfres o gyfreithiau, rheolau, egwyddorion a gweithdrefnau sy'n pennu sut y dylai gwladwriaeth gael ei llywodraethu. Mae hefyd yn diffinio'r berthynas rhwng canghennau Llywodraeth a rhwng y Llywodraeth a'r unigolyn. Mae gan y rhan fwyaf o wledydd gyfansoddiad wedi'i nodi mewn dogfen benodol ond dywedir bod gan y DU "gyfansoddiad anysgrifenedig". Mewn gwirionedd, gellir dod o hyd i'w chyfansoddiad mewn amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Deddfau Seneddol, cyfraith achos, arfer a chynsail.

**Y Cyfarfod Llawn:** Hwn yw'r term a ddefnyddir pan fydd pob un o'r 60 **Aelod Cynulliad** yn cyfarfod i drafod busnes.

**Cymeradwyaeth Frenhinol:** Caiff Mesurau Cynulliad eu cymeradwyo gan y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor.

**Cymhwysedd Deddfwriaethol:** Y term a ddefnyddir i ddisgrifio cwmpas pŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i basio Mesurau. Mae Atodlen 5 ac Adran 94 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn diffinio cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran ei bŵer i basio Mesurau Cynulliad. Bydd y Cynulliad yn cael cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â maes polisi penodol unwaith y caiff y maes polisi hwnnw ei gynnwys yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006 (lle y defnyddir y term "Mater" i gyfeirio at y maes polisi). Gellir hefyd ehangu cymhwysedd deddfwriaethol drwy ddiwygio Atodlen 5 i Ddeddf 2006 drwy Ddeddf Seneddol.

**Cynulliad:** Gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad):** Y gymdeithas anghorfforedig o 60 Aelod Cynulliad – deddfwrfa ar wahân a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gyda swyddogaeth graffu a seneddol/deddfu.

**Deddf Llywodraeth Cymru 2006:** Mae'r Ddeddf hon, a basiwyd gan Senedd y DU yn 2006, yn disodli *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* a arweiniodd at sefydlu'r Cynulliad. Mae'n gwahanu canghennau gweithredol a deddfwriaethol y corff corfforaethol blaenorol; mae'n ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad ac mae'n gwneud newidiadau i'r system etholiadol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

**Deddfau Seneddol:** Cyfreithiau a wneir gan Senedd y DU yw Deddfau Seneddol. Caiff cynigion ar gyfer cyfreithiau newydd (Mesurau Seneddol) eu trafod yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn Nhŷ'r Arglwyddi. Os bydd dau Dŷ'r Senedd yn pleidleisio o blaid y cynigion, bydd y Mesur Seneddol yn barod i ddod yn Ddeddf. Dim ond ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines y gellir ei ddisgrifio fel Deddf. Cyfeirir at Ddeddfau hefyd fel Statudau weithiau.

**Deddfwrfa:** Corff deddfu lle y caiff cyfreithiau newydd eu trafod a'u derbyn. Mae hefyd yn craffu ar benderfyniadau'r Llywodraeth ac yn ei dwyn i gyfrif.

**Deddfwriaeth sylfaenol:** Deddf Seneddol gan amlaf.

**Dirprwy Weinidogion Cymru:** Fe'u penodir gan Brif Weinidog Cymru o blith Aelodau'r Cynulliad. Maent yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond ni chânt eu cynnwys yn y diffiniad o Weinidogion Cymru. Ni cheir mwy na 12 o Weinidogion Cymru (ni chaiff Prif Weinidog Cymru ei gynnwys yn yr enghraifft hon) a Dirprwy Weinidogion Cymru gyda'i gilydd ar unrhyw adeg benodol.

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig (LCO) (Gorchymyn arfaethedig):** Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, sy'n Orchymyn drafft rhagarweiniol a baratowyd i graffu arno cyn y broses ddeddfu gan Aelod Cynulliad, pwyllgor Cynulliad neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, a phe bai Gorchymyn drafft yn cael ei osod gerbron y Cynulliad a'r Senedd ac yn cael ei basio, byddai'n ehangu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO):** Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir gan y Senedd o dan Adran 95 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n diwygio Atodlen 5 i Ddeddf 2006 ac sy'n newid cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) (Gorchymyn drafft):** Mae hwn yn cyfeirio at LCO sydd wedi bod yn destun gwaith craffu cyn deddfu fel Gorchymyn arfaethedig ac sy'n cael ei ystyried gan y Cynulliad a'r Senedd y DU a fydd yn pleidleisio i benderfynu a ddylid ei gymeradwyo ai peidio. Ni ellir ei ddiwygio.

**Goruchafiaeth Seneddol:** Goruchafiaeth Seneddol yw'r athrawiaeth yng nghyfraith gyfansoddiadol y DU mai Senedd y Deyrnas Unedig yw'r corff deddfu sofran. Golyga hyn mai Senedd y DU yw'r prif sefydliad llywodraethu a chaiff ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddeddfwriaeth a gaiff ei phasio gan seneddau blaenorol gyda mwyafrif.

**Gweinidog Cymru:** Aelod Cynulliad a gaiff ei benodi fel Gweinidog Cymru gan Brif Weinidog Cymru, gyda chymeradwyaeth y Frenhines. Mae'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Gweinidogion Cymru:** Prif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru a benodir gan Brif Weinidog Cymru. Nid yw hyn yn cynnwys Dirprwy Weinidogion Cymru na'r Cwnsler Cyffredinol.

**Is-ddeddfwriaeth:** Cyfraith a wneir gan Weinidogion o dan bwerau a roddir iddynt mewn Deddfau Seneddol er mwyn gweithredu a gweinyddu gofynion Deddfwriaeth sylfaenol. Defnyddir y term deddfwriaeth ddirprwyedig i gyfeirio ati hefyd. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, cafodd y Cynulliad y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth. O fis Mai 2007, Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y rhan fwyaf o is-ddeddfwriaeth mewn materion datganoledig.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru:** Corff newydd sydd â chyfrifoldebau llywodraethol/gweithredol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau. Aelodau Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd:

- Prif Weinidog Cymru
- Gweinidogion Cymru
- Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Dirprwy Weinidogion Cymru

Mae staff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil Cartref.

**Materion:** Ynghyd ag adran 94 o Ddeddf 2006, mae'n diffinio cwmpas pŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i basio Mesurau. Ar ôl i Fater gael ei gynnwys mewn Maes yn Atodlen 5 i Ddeddf Cynulliad Cymru 2006, gall y Cynulliad basio Mesur ar y pwnc hwnnw.

**Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Mesurau):** Categori newydd o ddeddfwriaeth, y gellir ei defnyddio i ddiwygio Deddfau Seneddol presennol a gwneud darpariaeth newydd. Yn gyffredinol, bydd Mesurau dim ond yn ymwneud â Materion a restrir yn y Meysydd a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Meysydd:** Meysydd polisi datganoledig y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru geisio cymhwysedd deddfwriaethol oddi mewn iddynt er mwyn pasio Mesurau. Mae'r meysydd hyn wedi'u cynnwys yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Prif Weinidog Cymru:** Aelod Cynulliad a gaiff ei benodi gan y Frenhines i fod yn Brif Weinidog, ar ôl cael ei enwebu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Pennaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a fydd wedyn yn penodi Gweinidogion eraill Cymru gyda chymeradwyaeth y Frenhines.

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:** Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw'r unig bwyllgor sy'n ofynnol yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Rhaid iddo gael ei gadeirio gan AC o'r gwrthbleidiau.

**Pwyllgor y Cynulliad Cyfan:** Pan gaiff deddfwriaeth ei hystyried yn fanwl gan bob AC yn hytrach na'r rheini a gaiff eu hethol i bwyllgor yn unig. Mae'n arfer cyffredin ar draws deddfwrfeydd eraill. Er enghraifft, craffodd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin cyfan ar *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ei hun.

**Pwyllgorau:** Ceir tri math o bwyllgor yn y Cynulliad: pwyllgorau sy'n craffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) a Mesurau; Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau Sefydlog fel y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Refferendwm:** Y drefn o gyfeirio cwestiwn at sylw'r etholwyr a fydd yn pleidleisio arno mewn modd tebyg i etholiad cyffredinol.

**Rheolau Sefydlog:** Y rheolau sy'n sail i'r ffordd y caiff trafodion y Cynulliad eu rheoleiddio.

**Statudau:** Term arall ar gyfer Deddfau Seneddol.

**Trafodion y Cynulliad:** Unrhyw drafodion i'r Cynulliad (hy y Cyfarfod Llawn), i unrhyw un o bwyllgorau'r Cynulliad neu i is-bwyllgor pwyllgor o'r fath.

**Trafodion y Cynulliad:** Mae'r term hwn yn cyfeirio at gyfarfodydd y **Cynulliad** yn y **Cyfarfod Llawn** yn unig.

**Y Weithrediaeth:** Term a ddefnyddir i ddisgrifio Llywodraeth ac i wahaniaethu rhyngddi a'r ddeddfwrfa. Mae'n llunio polisïau, yn cyflwyno deddfwriaeth ac yn ei rhoi ar waith. Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r weithrediaeth.

**Ysgrifennydd Gwladol Cymru:** Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn aelod o Lywodraeth y DU ac mae ganddo sedd yn y Cabinet ar hyn o bryd. Ei rôl yw sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hystyried yn llawn gan Lywodraeth y DU wrth wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar Gymru; cynrychioli Llywodraeth y DU yng Nghymru a bod yn gyfrifol am sicrhau bod deddfwriaeth ar gyfer Cymru'n unig yn mynd drwy'r Senedd. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddod i gyfarfodydd y Cynulliad a siarad yn ystod trafodion y Cynulliad ond ni all bleidleisio ac nid yw'n Aelod o'r Cynulliad.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cysylltwch ag **Alys Thomas**, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (**Alys.Thomas@Wales.gsi.Gov.UK**)

Rhagor o Hysbysiadau Hwylus: Rhestr lawn o **Hysbysiadau Hwylus**

**MRS 07/0715 Dr. Alys Thomas**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk**